

# Blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd: crynodeb o'r dystiolaeth

## 1. Cefndir

1. Yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2021, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn helpu i lywio ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros doriad yr haf a daeth i ben yng nghanol mis Medi 2021. Cafodd y Pwyllgor [118 o ymatebion](#) yn cwmpasu ehangder ei gylch gwaith.
2. Yn ystod hanner cyntaf tymor yr hydref, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o sesiynau tystiolaeth thematig gyda rhanddeiliaid i lywio ei flaenoriaethau ymhellach. Cymerodd dystiolaeth hefyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ('y Dirprwy Weinidog'). Mae trawsgrifiadau o'r sesiynau hyn ar gael ar [wefan.y.Senedd](#).
3. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y materion o bwys a godwyd mewn tystiolaeth. Cyhoeddwyd adroddiad y pwyllgor ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd ar wahân.



## 2. Ffyrdd o weithio

- 4.** Gwnaeth sawl rhanddeiliad sylwadau ar gylch gwaith eang y Pwyllgor a'r heriau posibl ar gyfer craffu ar yr ystod lawn o feysydd polisi, yn enwedig yng nghyd-destun cylch cyfarfod bob pythefnos. Pwysleisiodd Bus Users UK a'r Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth yr angen i sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i graffu ar bolisi trafndiaeth nawr ei fod yn eistedd ochr yn ochr â meysydd polisi allweddol sy'n ymwneud â newid hinsawdd a'r amgylchedd. Gwnaeth y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru yr un pwynt mewn perthynas â seilwaith. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y bydd yn bwysig i'r pwyllgor feithrin arbenigedd ar seilwaith fel maes polisi newydd o fewn ei gylch gwaith.<sup>1</sup>
- 5.** Mae nifer o'r materion a nodwyd gan randdeiliaid fel blaenoriaethau posibl i'r pwyllgor yn drawsbynciol, er enghraifft, y rhaglen ôl-osod tai, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a mynd i'r afael â phrinder sgiliau i sicrhau adferiad gwyrdd. Roedd galw ar y pwyllgor i gydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd, neu fabwysiadu arferion gwaith mwy arloesol, i ystyried y rhain.
- 6.** Awgrymodd sawl rhanddeiliad y dylai'r pwyllgor ganolbwyntio ei waith craffu ar gyflawni polisiau a chanlyniadau, gyda rhai yn nodi, er y gallai'r polisiau cywir fod ar waith, bod rhwystrau i'w cyflawni.
- 7.** Dywedodd rhanddeiliaid y dylid llywio gwaith y pwyllgor drwy ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli'r amrywiaeth eang o bobl yng Nghymru, plant a phobl ifanc, ac unigolion sydd â phrofiad byw o anghydraddoldeb.

---

<sup>1</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR 07 Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

### 3. Newid hinsawdd a sero net

#### 'Cymru Sero Net' a chyllidebau carbon

8. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25)* ('y Cynllun') ar 28 Hydref 2021. Mae'r Cynllun yn cynnwys 123 o bolisiau a chynigion ar gyfer cwrdd ag ail gyllideb garbon Cymru a thargedau lleihau carbon yn y tymor hwy.
9. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd y Cynllun "yn anochel yn darparu sbardun pwysig i weithredu" ac y dylid ei "ystyried yn ddogfen fyw". Roedd o'r farn y "dylai adolygiad cyfnodol o'r cynllun a'r rhwystrau i gyflawni fod yn flaenoriaeth bwysig".<sup>2</sup>
10. Mynegodd sawl rhanddeiliad eu siom ynghylch diffyg ymgysylltiad Llywodraeth Cymru yn natblygiad y Cynllun. Yn ôl Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru mae Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle i weithio'n rhagweithiol ac ar y cyd ag eraill i lunio'r Cynllun a fyddai wedi arwain at gydberchnogaeth arno.<sup>3</sup>
11. Roedd galwadau i'r pwyllgor wneud gwaith cynnar ar y Cynllun, ac adolygu cynnydd tuag at gyflawni yn ystod tymor y Senedd.

#### Sector cyhoeddus sero net erbyn 2030

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i'r sector cyhoeddus gyrraedd sero net erbyn 2030. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd *Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru* ('y Trywydd'), sy'n darparu "trosolwg strategol o'r meysydd allweddol ar gyfer gweithredu a'r cerrig milltir sydd eu hangen" i gyrraedd ei huchelgais. Y pedwar maes blaenoriaeth yw: adeiladau; symudedd a thrafnidiaeth; caffael; a defnydd tir.
13. Roedd galwadau i'r Pwyllgor ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector i gyflawni uchelgeisiau sero net 2030. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, o fewn y sefydliad a'r sector cyhoeddus fod "llawer o heriau i ddatgarboneiddio, yn enwedig trawsnewid ein hadeiladau a'n caffaeliad".<sup>4</sup>
14. Roedd ffocws penodol ar GIG Cymru, fel cyfrannwr mawr at allyriadau carbon a'r cyflogwr mwyaf yn y sector cyhoeddus. Yn ôl Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru nid yw

---

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR46 Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru

uchelgais sero net Llywodraeth Cymru fel y mae'n ymwneud â GIG Cymru yn cael ei ategu gan waith cynllunio o ddifrif, adnoddau ac amserlen o gamau gweithredu i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.<sup>5</sup> Eglurodd y Coleg, mewn cymhariaeth, fod gan GIG Lloegr 'Greener NHS' i annog newid.

**15.** Dywedodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol y bydd angen i GIG Cymru chwarae rhan ganolog os yw Cymru am gyrraedd ei tharged sero net.<sup>6</sup> Awgrymodd y dylai'r pwyllgor graffu ar weithrediad Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (Mawrth 2021). Ar 2 Tachwedd 2021, darparodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad i'r Senedd ar y Cynllun.

## Ymgysylltu â'r cyhoedd a newid ymddygiad

**16.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd â'r agenda newid hinsawdd, gan gydnabod y bydd newid ymddygiad yn hanfodol os yw Cymru am gyrraedd ei tharged sero net. Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen i Lywodraeth Cymru wella ar hyn. Roedd galwadau am sefydlu cynulliad hinsawdd, diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ac ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd, a rhaglen newid ymddygiad.

**17.** Galwodd sawl rhanddeiliad am addysg dinasyddiaeth hinsawdd a byd-eang i gefnogi dealltwriaeth o oblygiadau newid hinsawdd.

## Cyfnod pontio teg a chyfiawn

**18.** Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd trosglwyddo'n gyfiawn i sero net ac roeddent yn galw ar y pwyllgor i sicrhau bod polisiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer hyn.

**19.** Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni y dylai'r pwyllgor ganolbwyntio ar helpu i sicrhau bod y newid i sero net yn deg, gyda'r cyfleoedd a'r buddion y mae'r trawsnewid yn eu cynnig yn cael eu dosbarthu'n gyfiawn ledled Cymru. Dywedodd y bydd sicrhau cyfnod pontio teg a chyfiawn yn heriol dros ben, yn enwedig mewn gwlad sydd eisoes â phroblemau o ran tlodi sydd wedi hen ymwreiddio a gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhanbarthau.<sup>7</sup>

---

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR12 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR50 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR14 Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**20.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn parhau i annog cynnydd o ran lleihau allyriadau yn y sector cyhoeddus ac wedi datblygu fframwaith monitro i olrhain cynnydd.<sup>8</sup> Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ganllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net*, sy'n ceisio "datblygu set gyffredinol o gyfarwyddiadau i gael ei defnyddio gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, i amcangyfrif allyriadau sylfaenol, nodi ffynonellau sy'n flaenoriaeth a monitro cynnydd tuag at yr uchelgais".

**21.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor technegol ochr yn ochr â benthyciadau i'r sector cyhoeddus a sefydliadau cymunedol ar gyfer prosiectau adnewyddadwy ac ôl-osod. Nodwyd bod amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus wedi elwa o'r rhaglen arloesi datgarboneiddio, sy'n ceisio nodi a meithrin syniadau a chysyniadau newydd ac arloesol i gefnogi gwaith ar ddatgarboneiddio.<sup>9</sup>

## Cefnogi sectorau eraill i leihau allyriadau

**22.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, "n[a]d oes ffocws digonol ar sut y gall pob sector, sefydliad ac unigolyn ledled Cymru gefnogi ein targedau lleihau carbon". Awgrymodd y dylai'r pwyllgor flaenoriaethu gwaith o ran "deall ein hallyriadau ar draws pob sector gan gynnwys ble i flaenoriaethu gweithredu".<sup>10</sup>

**23.** Roedd galwadau i'r Pwyllgor ystyried parodrwydd sectorau ar draws yr economi i drosglwyddo i sero net, a sut y maent yn cael eu cefnogi, os o gwbl, gan Lywodraeth Cymru i oresgyn unrhyw heriau.

**24.** Awgrymodd sawl rhanddeiliad, gan gynnwys Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, y dylai'r sector adeiladu fod yn ffocws penodol, gan nodi ei fod yn un o'r rhai lleiaf cynaliadwy.

**25.** Dywedodd y Mineral Products Association fod datgarboneiddio diwydiant yn fwlch amlwg yn y blaenoriaethau a nodwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd. Pwysleisiodd yr angen i gefnogi diwydiant Cymru fel y gall sylfaen ddiwydiannol wedi'i datgarboneiddio dyfu, a all fod yn sail i'r economi carbon isel gan ddarparu swyddi a deunyddiau hanfodol. Rhybuddiodd y Mineral Products Association yn erbyn gwneud penderfyniadau polisi sy'n arwain at wrthbwysu diwydiant Cymru. Roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu datblygu strategaeth

---

<sup>8</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>9</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR51 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

---

ddiwydiannol ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod diwydiant yn cael ei gefnogi i ddatgarboneiddio tra'n aros yn gystadleuol.<sup>11</sup> Mynegwyd barn debyg gan Tata Steel.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**26.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog nad yw Cynllun Masnachu Allyriadau newydd y DU, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2021, wedi'i gysylltu eto â chynllun yr UE, er bod cenhedloedd datganoledig ac elfennau Llywodraeth y DU wedi bod yn cefnogi'r dull hwn ers cryn amser. Roeddent yn disgwyl ymgynghori ar newidiadau i gryfhau'r Cynllun yn ystod y misoedd nesaf.<sup>12</sup>

## Datgarboneiddio'r sector tai

**27.** Amlygodd nifer sylweddol o randdeiliaid ddatgarboneiddio tai fel her allweddol i Lywodraeth Cymru yn ystod y Chweched Senedd. Pwysleisiwyd maint yr her o ôl-osod stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig y sector perchen-feddiannydd a'r sector rhentu preifat. Roedd rhai o'r prif faterion a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- y cyllid sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio tai, a sut y dylid rhannu'r gost rhwng y llywodraeth, busnesau a chartrefi;
- sut i annog neu gymell y sector perchennog-feddiannydd a'r sector rhentu preifat i ôl-osod eu heiddo;
- yr angen i gryfhau'r gadwyn gyflenwi a mynd i'r afael â'r bwlch 'sgiliau gwyrdd' i gyflawni ôl-osod ar raddfa;
- effaith datgarboneiddio tai ar lefelau tlodi tanwydd, a'r angen am 'gyfnod pontio cyfiawn' er mwyn osgoi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol.

**28.** Awgrymodd sawl rhanddeiliad y dylai'r pwyllgor ystyried cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio'r stoc dai yng nghyd-destun adroddiad y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi, *Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell*. Yn ôl Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu Cymru, cynigiodd y Grŵp Cynghori ymyriadau ar raddfa lawer mwy (yn enwedig o ran ôl-osod).<sup>13</sup> Er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn, mewn egwyddor, yr argymhellion yn yr adroddiad, nid yw'n eglur sut y mae wedi'u datblygu hyd yma, os o gwbl.

---

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR60 Mineral Products Association

<sup>12</sup> [Papur dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR13 Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu Cymru

---

**29.** Cyfeiriodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhanddeiliaid eraill at waith ymchwil diweddar, sy'n amcangyfrif y bydd angen £14.75 biliwn o fuddsoddiad ar raglen datgarboneiddio tai yng Nghymru dros y degawd nesaf. Yn ôl y Comisiynydd, "rhaid i fynd i'r afael â'r her hon fod yn ymdrech ar y cyd ar draws llawer o randdeiliaid gyda Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd". Awgrymodd efallai y bydd y pwyllgor am ystyried y "cynllun tymor hwy ar gyfer ariannu datgarboneiddio ein cartrefi".<sup>14</sup>

**30.** Awgrymodd Chris Joffe, cyn-Gadeirydd y Grŵp Cyngori Annibynnol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, y byddai'n bwysig sicrhau bod pwyslais digonol yn cael ei roi ar gartrefi preifat, sy'n ffurfio'r mwyafrif o gartrefi Cymru ac yn gyfrifol am fwyaf yr allyriadau nwy tŷ gwydr o gartrefi Cymru. Awgrymodd y dylai'r pwyllgor ganolbwyntio ar ariannu yr ochr ôl-osod preswyl ar gyfer pob sector.<sup>15</sup>

**31.** Nododd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni y bydd Rhan L a Rhan F ddiwygiedig y Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau newydd yn dod i rym yn fuan. Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor fod am ystyried sut y mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n ymarferol a pha effaith y maent yn ei chael ar allyriadau o gartrefi a busnesau Cymru.

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**32.** Yn ôl y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran sut i adeiladu cartrefi newydd sy'n isel o ran carbon neu'n ddi-garbon ac sy'n cynhyrchu allyriadau llai o lawer yn ystod y broses adeiladu. Eglurwyd bod angen adeiladu'r holl dai cymdeithasol newydd a gynlluniwyd o 1 Hydref heb ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhesu'r cartrefi a darparu dŵr poeth. Yr uchelgais yw pan fydd tai cymdeithasol yn arwain, y bydd tai y farchnad yn dilyn.<sup>16</sup>

**33.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull profi a dysgu o ran ôl-osod y stoc dai bresennol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau parod - gan wneud cartrefi mor effeithlon o ran tanwydd â phosibl a'u cael yn barod ar gyfer iteriadau o'u taith ddatgarboneiddio yn y dyfodol. Nodwyd mai'r Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig yw'r ffordd o ddarparu mecanwaith clir i gymryd camau cydgysylltiedig, profi a dysgu, ystyrlon i

---

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR51 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR02 Christopher Joffe

<sup>16</sup> Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021

---

ddatgarboneiddio cartrefi, gan ddefnyddio methodoleg strwythuredig, sy'n gadarn yn dechnegol, gan aros mor fforddiadwy a phragmatig â phosibl".<sup>17</sup>

## Deall a lleihau ôl troed byd-eang Cymru

**34.** Roedd cefnogaeth yn y dystiolaeth i'r pwyllgor ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o leihau ôl troed byd-eang Cymru, yn enwedig ei hól troed o ran datgoedwigo. Dywedodd WWF Cymru:

*One of the key factors driving the global climate and nature emergency is deforestation and habitat loss. The IPCC is clear that without our forests, we will fail to limit global warming to 1.5°C. Wales needs to play its part by changing what it buys, consumes and invests in, since these choices can drive unethical practices and environmental degradation overseas.*<sup>18</sup>

**35.** Pwysleisiodd Maint Cymru yr angen i Gymru fynd i'r afael ag olion traed byd-eang yn y gadwyn gyflenwi, yn enwedig drwy'r nwyddau a'r cynhyrchion bwyd a gaiff eu mewnfario.<sup>19</sup> Cyfeiriodd at ganfyddiadau gwaith ymchwil diweddar, sy'n dangos roedd angen ardal sy'n cyfateb i 40 y cant o faint Cymru (83,000 hectar) dramor i dyfu mewnforyn Cymreig o nwyddau penodol mewn blwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2011 a 2018. Mae 30 y cant o'r tir a ddefnyddir i dyfu'r rhain mewn gwledydd sydd wedi'u categorio fel risg uchel neu uchel iawn ar gyfer materion cymdeithasol a datgoedwigo.

**36.** Galwodd rhanddeiliaid ar Lywodraeth Cymru i fesur allyriadau defnydd ac i'r rhain gael eu cynnwys yng nghyllidebau carbon Cymru. Dywedodd Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru fod data ar allyriadau defnydd Cymru yn druenus o hen. Ychwanegodd:

Without a consistent mechanism for measuring consumption emissions we cannot track our global impact and without a plan to reduce them we risk offshoring our climate responsibilities to other nations. This is not what global responsibility looks like.<sup>20</sup>

---

<sup>17</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR48 WWF Cymru

<sup>19</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR 10 Maint Cymru

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR46 Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

---



## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**37.** Eglurodd un o swyddogion y Gweinidog ei bod yn anodd iawn amcangyfrif allyriadau defnydd. Fodd bynnag, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith yn y maes hwn ac y bydd yn cyhoeddi adroddiad y flwyddyn nesaf ar ôl troed allyriadau defnydd Cymru.

## Addasu newid hinsawdd

**38.** O dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar ei amcanion, eu camau gweithredu a'u blaenoriaethau yn y dyfodol o ran effeithiau newid hinsawdd (y cyfeirir ato'n gyffredin fel y cynllun addasu i newid hinsawdd). Mae'r cynllun cyfredol, *Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd*, yn nodi camau i liniaru newid hinsawdd o nawr hyd at 2025. Mae'n cynnwys dros 30 o ymrwymadau i gefnogi ymdrechion addasu ar draws pob sector ac mae'n nodi manylion am sawl maes gwaith sy'n cael eu datblygu ac sydd i'w lansio yn ystod camau cynnar y cynllun.

**39.** Nododd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, fod yr ymateb i newid hinsawdd hyd yma wedi cael ei ddominyddu gan liniaru hinsawdd yn hytrach nag addasu hinsawdd. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd diweddaraf<sup>21</sup> ('CCRA3') a'r Chweched Adroddiad Asesu gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd yn atgyfnerthu'r angen am gamau gweithredu pellach o ran addasu ar frys.<sup>22</sup> Awgrymodd y dylai adolygu cynnydd wrth gyflawni cynllun addasu Llywodraeth Cymru fod yn flaenoriaeth dros y 18 mis nesaf.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**40.** Nododd y Gweinidog ei bwriad i adolygu'r cynllun yn sgil CCRA3 a'r cyngor diweddaraf gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Dywedodd ei bod yn disgwyl gwneud datganiad maes o law ar gyflawni'r cynllun addasu, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau sydd eu hangen.

---

<sup>21</sup> O dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 rhaid i Lywodraeth y DU gyhoeddi Asesiad Risg Newid Hinsawdd ('CCRA') bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Prif ddiben y CCRA yw asesu'r risgiau i'r DU o effeithiau cyfredol ac effeithiau a gaiff eu rhagweld o ran newid hinsawdd. Cyhoeddwyd y trydydd CCRA ('CCRA3') ym mis Mehefin 2021, ynghyd â chrynodeb ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei adroddiad cynnydd i'r Senedd, sy'n cynnwys ei asesiad bob dwy flynedd o gynnydd wrth addasu i newid hinsawdd.

<sup>22</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru

---

## Llifogydd

- 41.** Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Strategaeth Genedlaethol 10 mlynedd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* ('y Strategaeth Genedlaethol'). Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae'n gosod amcanion a mesurau i'r holl bartneriaid weithio tuag atynt dros oes y ddogfen.
- 42.** Credai sawl rhanddeiliad y dylai llifogydd fod yn flaenoriaeth i'r pwyllgor, gan gyfeirio at y cynnydd yn amllder a difrifoldeb llifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd.
- 43.** Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru sawl 'her fawr' ar gyfer rheoli risg llifogydd: buddsoddiad parhaus mewn asedau seilwaith presennol sy'n helpu i reoli llifogydd; addasu, ar gyflymder ac ar gyfer cynlluniau hirdymor ar gyfer y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd; adeiladu gwytnwch, ar gyflymder, gan gynnwys cynyddu dealltwriaeth cymunedau o risg llifogydd a'r hyn y gallant ei wneud i helpu eu hunain.<sup>23</sup>
- 44.** Roedd galwadau i'r pwyllgor ystyried effaith llifogydd ar gymunedau. Dywedodd Shelter Cymru fod llifogydd yn gwaethygu anghydraddoldeb cymdeithasol ac anghydraddoldeb hiliol ymhellach.<sup>24</sup> Cyfeiriodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion at effeithiau sylweddol llifogydd ar iechyd meddwl.<sup>25</sup>
- 45.** Awgrymodd cynrychiolwyr o lywodraeth leol y dylai'r pwyllgor ystyried sut mae cyllid ar gyfer rheoli risg llifogydd yn cael ei flaenoriaethu. Nododd CLILC fod ffocws Llywodraeth Cymru ar amddiffyn cartrefi yn hytrach na busnesau. Yn ôl CLILC, mae hyn "yn debygol o effeithio ar ffyniant ac economïau lleol ac nid yw'n adlewyrchu'r uchelgais a nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol". Awgrymodd CLILC y dylai'r pwyllgor ystyried sut y bydd busnesau'n cael "eu diogelu a'u hariannu yn wyneb risgiau cynyddol" o ran llifogydd.<sup>26</sup>
- 46.** Amlygodd rhanddeiliaid rôl cynllunio defnydd tir wrth reoli risg llifogydd, gan gynnwys yr angen am fwy o dryloywder yn y broses cais cynllunio a monitro ac adrodd yn glir ar benderfyniadau cynllunio. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y bydd yn rhaid i ddatblygiadau ystyried perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol.

---

<sup>23</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR107 Shelter Cymru

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR91 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR61 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

---

**47.** Dywedodd Archwilio Cymru ei bod yn bwriadu cynnal adolygiad o reoli risg llifogydd, er nad yw cwmpas y gwaith wedi'i gytuno eto.

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**48.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod lleihau'r risg o lifogydd i bobl, eiddo a seilwaith o fewn cymunedau yn flaenoriaeth sylweddol.<sup>27</sup> Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymadau i ariannu amddiffyniad llifogydd ychwanegol ar gyfer dros 45,000 o gartrefi, ac i ddarparu rheolaeth llifogydd ar sail natur ym mhob dalgylch afonydd mawr i ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir.

**49.** Yn ôl y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, y flwyddyn ariannol hon mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £65 miliwn mewn gweithgareddau rheoli risg llifogydd ledled Cymru. Mae'n datblygu rhestr o gynlluniau cyfalaf ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol i amddiffyn cartrefi ledled Cymru yn well.<sup>28</sup>

**50.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod cynlluniau peilot ar gyfer rheoli llifogydd ar sail natur wedi bod yn mynd rhagddynt am y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Mae'n ofynnol i bob cynllun sy'n cael ei ddatblygu drwy'r rhaglen gyfalaf ystyried rheoli llifogydd natur fel un o'u hopsynau.

---

<sup>27</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>28</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

---

## 4. Adferiad gwyrdd

### Sgiliau gwyrdd

**51.** Amlygodd rhanddeiliaid yr angen i fynd i'r afael â'r prinder 'sgiliau gwyrdd' i sicrhau 'adferiad gwyrdd' a mynd i'r afael â newid hinsawdd ac argyfyngau natur. Nodwyd prinder ar draws pob sector o'r economi, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig ac adeiladu, ac adfer natur. Galwodd rhanddeiliaid ar y pwyllgor i wneud gwaith gyda phwyllgorau eraill y Senedd i ystyried y mater hwn.

**52.** Canfu adroddiad diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, *Sgiliau drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ai)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru*, y gallai dros 60,000 o swyddi gael eu creu yn yr economi werdd erbyn 2022 gyda buddsoddiad mewn seilwaith ond nad yw'r rhestr sgiliau gyfredol yn barod ar gyfer y galw hwn.

**53.** Dywedodd CLILC y canlynol:

*Mae Cymru yn wynebu diffyg sylweddol o ran gweithlu medrus, sy'n effeithio ar allu Cynghorau, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector preifat i recriwtio a llenwi swyddi arbenigol. Gwelir prinder ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Rheoli Risg, Newid Hinsawdd, Ynni, Tai, Coedwigaeth a Draenio Cynaliadwy. Gellir egluro hyn yn rhannol oherwydd diffyg cyrsiau addas a ddarperir gan y byd academaidd, anawsterau cynghorau i addasu i bolisiau sy'n newid yn gyflym, a diffyg cefnogaeth i weithredu'r polisiau hyn.<sup>29</sup>*

**54.** Awgrymodd sawl rhanddeiliaid y dylai'r pwyllgor ddilyn y cynnig i sefydlu 'Gwasanaeth Natur Cenedlaethol' - cynllun sgiliau a chyflogaeth sy'n canolbwyntio ar adfer natur a darparu swyddi o ansawdd da a chyfleoedd bywoliaeth ledled Cymru. Roedd y cynnig yn un o'r camau blaenoriaeth a nodwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adferiad Gwyrdd ('y Grŵp Gorchwyl a Gorffen'), dan gadeiryddiaeth Syr David Henshaw. Dywedodd rhanddeiliaid nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r cynnig eto.

**55.** Yn fwy eang, awgrymodd Hafren Dyfrdwy y dylai'r pwyllgor fynd ar drywydd cynnydd wrth ddatblygu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

---

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR61 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Datrysiadau ar sail natur

**56.** Amlygodd sawl rhanddeiliad fod buddsoddi mewn natur yn allweddol i adferiad gwyrdd. Dywedodd RSPB Cymru fod ei **adroddiad** diweddar yn dangos yr enillion sylweddol y gellir eu sicrhau o fuddsoddi mewn asedau naturiol.<sup>30</sup> At hynny, mae adroddiad RSPB Cymru, **Datblygu Gweithlu Gwyrdd yng Nghymru: Amcangyfrif Graddfa Angen a Chyfle** (Tachwedd 2020), yn amcangyfrif y gallai buddsoddiad mewn adfer natur gefnogi bron i 7,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Galwodd ar y pwyllgor i ailedrych ar yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei adroddiad, **Adferiad tymor hir o COVID-19** (Mawrth 2021), gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd parod a'i gyflymu, gan gynnwys datrysiadau ar sail natur.

---

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR80 RSPB Cymru

## 5. Ynni

### Ynni adnewyddadwy

- 57.** Yn 2017, pennodd Llywodraeth Cymru dargedau ar gyfer ynni adnewyddadwy:
- Dylai ynni adnewyddadwy gynhyrchu swm sy'n cyfateb i 70 y cant o ddefnydd trydan Cymru erbyn 2030 [roedd yn 51 y cant yn 2019];
  - Dylai 1 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy yng Nghymru fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030;
  - Dylai prosiectau ynni adnewyddadwy gael o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020 [mae hyn yn wir ar gyfer 83 y cant o brosiectau ar hyn o bryd].
- 58.** Fodd bynnag, mae cyfradd gosod capasiti ynni adnewyddadwy newydd wedi gostwng bob blwyddyn ers 2015.
- 59.** Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ymarfer ymchwil manwl i "nodi rhwystrau i gynyddu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn sylweddol a nodi camau i oresgyn y rhwystrau". Disgwylir i ganlyniad yr ymarfer gael ei gyhoeddi cyn toriad y Nadolig.
- 60.** Roedd barn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid bod angen gwneud mwy i gyflymu a chynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun y targed sero net.
- 61.** Rhybuddiodd Ynni Morol Cymru:

*Welsh evolution of our energy generation is currently falling behind other areas of the UK and international competition due to a challenging consenting regime, slow delivery of policy intent and insufficient investment in infrastructure. Resulting in the potential forfeit of the associated jobs, prosperity and economic growth for Wales as well as the provision of secure and predictable energy to the energy mix.<sup>31</sup>*

---

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR82 Ynni Morol Cymru

- 62.** Roedd galwadau i'r pwyllgor ystyried rhwystrau i ddatblygiad gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, a chefnogaeth iddynt, yn enwedig ynni morol, a gwynt ar y môr fel y bo'r angen.
- 63.** Amlygodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru yr angen i Lywodraeth Cymru barhau i hyrwyddo a chymell cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol, gan gynnwys mentrau cymunedol. Awgrymodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y "gall cyrff cyhoeddus fynd ymhellach" yn y rhain, yn enwedig lle gallant wella lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.<sup>32</sup>
- 64.** Amlygodd cynrychiolwyr yr undebau ffermio ac academyddion o Brifysgol Bangor botensial yn y sector amaeth i gyfrannu at y broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Roeddent yn credu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi'r sector, er enghraifft, drwy ailgyflwyno cymhellion ariannol. Galwodd Undeb Amaethwyr Cymru ar y pwyllgor i adolygu'r mater hwn.
- 65.** Amlygodd sawl rhanddeiliad yr angen i ddiweddarau ac ehangu seilwaith ynni i ateb y galw cynyddol wrth i bob rhan o'r economi newid i drydan carbon isel.
- 66.** Cyfeiriodd RWE at ddiffyg capasiti grid digonol fel y rhwystr mwyaf critigol i ynni adnewyddadwy. Dywedodd fod Cymru angen cynllun cydgysylltiedig wedi'i gostio ar frys ar gyfer uwchraddio'r seilwaith grid i alluogi datgarboneiddio llawn a chefnogi ei thargedau ynni adnewyddadwy.<sup>33</sup>
- 67.** Roedd galwadau i'r pwyllgor adolygu sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, y Grid Cenedlaethol ac Ofgem i fynd i'r afael â chapasiti grid ledled Cymru, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru.

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

- 68.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi nodi datganiad cynhwysfawr o'i hymagwedd tuag at bolisi ynni yn "Ynni Cymru: y newid i garbon isel" ac wedi hynny roedd wedi cyhoeddi polisiau manylach.<sup>34</sup>

---

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR51 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR95 RWE

<sup>34</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

---

**69.** Nodwyd fod y system gynllunio ddatganoledig yn un o'r ysgogiadau mwyaf wrth gyflwyno newidiadau ledled Cymru dros y cyfnod hirach.<sup>35</sup>

**70.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan fawr mewn ystod o fentrau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo perchnogaeth gyhoeddus a lleihau allyriadau o'r sector pŵer.<sup>36</sup>

**71.** Nodwyd hefyd:

*We have worked with the four regions of Wales "to develop energy strategies highlighting the scale of change needed to reach net zero, and the economic opportunities this presents". This puts Wales in a strong position to develop the more detailed and integrated plans needed to design a low carbon energy system... Building on the work of the regional energy strategies, the Welsh Government is piloting Local Area Energy Planning (LAEP) in partnership with local authorities. This is a more detailed approach to identify the actions to decarbonise a local energy system.*<sup>37</sup>

**72.** O ran ynni morol, eglurodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, ers 2019, fod gwaith wedi bod ar y gweill i ysgogi'r gwaith o gynhyrchu pŵer llanw adnewyddadwy a helpu mathau eraill o gynhyrchu ynni morol.<sup>38</sup>

**73.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog y byddant yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn fuan mewn ymateb i adroddiad Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Hinkley Point C.<sup>39</sup> (Mawrth 2021).

## Effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd

**74.** Mae tlodi tanwydd yn torri ar draws cylch gwaith y pwyllgor hwn, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n gyfrifol am dlodi tanwydd.

---

<sup>35</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>36</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>37</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>38</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>39</sup> Ym mis Gorffennaf 2020, cynullodd y Prif Weinidog Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Hinkley Point C i ddarparu asesiad annibynnol o'r goblygiadau i Gymru o'r orsaf ynni niwclear newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn Hinkley Point, yng Ngwlad yr Haf.



- 75.** Roedd cefnogaeth i'r pwyllgor ddilyn gwaith ei ragflaenydd ar dlodi tanwydd, gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn y sector rhentu preifat.
- 76.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at dlodi tanwydd alinio â'i tharged sero net ar gyfer 2050.
- 77.** Roedd galwadau i'r pwyllgor graffu ar effeithiolrwydd a chwmpas y Rhaglen Cartrefi Clyd, sut mae cyllid ECO Llywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru; a chynllun cadernid tywydd oer Llywodraeth Cymru sydd ar ddod.
- 78.** Awgrymodd National Energy Action ('NEA') Cymru y gallai'r pwyllgor fod eisiau ystyried yr iteriad nesaf o Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig, a'r fersiwn newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru.
- 79.** Yn dilyn ei hadroddiad yn 2019 ar dlodi tanwydd, mae Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o reolaeth Llywodraeth Cymru o'r Rhaglen Cartrefi Clyd gyfredol. Cyhoeddwyd 0 hadroddiad ym mis Tachwedd 2021. Mae'n canolbwyntio ar y materion a'r gwersi allweddol y dylai Llywodraeth Cymru eu dilyn yn y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

## Datgarboneiddio gwres

- 80.** Dywedodd NEA Cymru fod datblygu polisi cynhwysfawr ar ddatgarboneiddio gwres yn "flaenoriaeth i'w chroesawu" ac awgrymodd y dylai'r pwyllgor ystyried hyn. Dywedodd fod datgarboneiddio gwres "yn un o brif bryderon polisiâu a rhaglenni cyfredol" a fydd yn gofyn am "[g]ydweithio'n effeithiol â Llywodraeth y DU".<sup>40</sup>
- 81.** Dywedodd Calor Gas fod croestoriadoldeb datgarboneiddio gwres, effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yn gwneud ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddatgarboneiddio gwres yn un hanfodol ar gyfer tymor y Chweched Senedd a thu hwnt.<sup>41</sup>
- 82.** Tynnodd rhanddeiliaid sylw at effaith bosibl datgarboneiddio gwres ar filiau ynni cartrefi ac ar lefelau tlodi tanwydd. Pwysleisiodd Liquid Gas UK yr angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu datblygu polisi datgarboneiddio gwres sy'n cefnogi targedau lleihau carbon, ond sy'n seiliedig ar yr hyn y gall pobl ei dalu ac y maent eisiau ei osod.<sup>42</sup>

---

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR18 National Energy Action Cymru

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR73 Calor Gas

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR86 Liquid Gas UK

---

## **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**83.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i gyflawni'r uchelgeisiau sero net y bydd angen i Gymru ddatblygu polisi mwy cynhwysfawr ar ddatgarboneiddio gwres, sy'n her drawsbynciol sylweddol sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd, tai, meysydd masnachol, diwydiannol a pholisi gwastraff.<sup>43</sup>

---

<sup>43</sup> Papur dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021

---

## 6. Yr amgylchedd

### Llywodraethu amgylcheddol

- 84.** Yn ystod y Bumed Senedd, nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddeddfu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru sy'n deillio o golli mynediad at system lywodraethu'r UE. Nid ymrwymodd i amserlen i wneud hyn.
- 85.** Ni fydd Bil llywodraethu amgylcheddol ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen ddeddfwriaethol.
- 86.** Mynegodd cynrychiolwyr sector yr amgylchedd, yn ogystal ag academyddion, eu siom y dewisodd Llywodraeth Cymru i beidio â blaenoriaethu'r Bil llywodraethu amgylcheddol ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd. Mynegwyd pryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad cadarn i gyflwyno'r Bil ym mlwyddyn dau. Roedd galwadau i'r pwyllgor ofyn am ddiweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad y Bil, a phwyso arni i'w gyflwyno yn gynnar ym mlwyddyn dau.

### Natur a bioamrywiaeth

- 87.** Roedd galwadau cryf i Lywodraeth Cymru gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol fel mater o flaenoriaeth. Dywedodd WWF Cymru y bydd targedau statudol yn darparu atebolrwydd hanfodol ac yn canolbwyntio sylw Lywodraeth Cymru ar gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir, yn yr un ffordd sy'n digwydd ar yr hinsawdd.<sup>44</sup> Awgrymodd rhanddeiliaid fod gan y pwyllgor ran bwysig i'w chwarae wrth wthio'r agenda hon yn ei blaen.
- 88.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid bod yn rhaid i dargedau bioamrywiaeth gyd-fynd â digon o adnoddau ar gyfer rheoli a monitro safleoedd. Pwysleiswyd nad oes digon o adnoddau ar hyn o bryd.
- 89.** Ymhlith y materion eraill a godwyd gan rhanddeiliaid mae'r canlynol:
- p'un a yw Llywodraeth Cymru yn ymgorffori adferiad natur ar draws pob adran ac ym mhob penderfyniad allweddol, a sut mae'n gwneud hynny;
  - rheoli **Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol** y DU (yn flaenorol **Natura 2000** o dan yr UE) a sut y gellir mynd i'r afael â bylchau cyfredol, gan gynnwys bylchau yn rheolaeth yr alltraeth;

---

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR48 WWF Cymru

- galluoedd storio carbon moroedd Cymru, ac adfer cynefinoedd carbon glas morol; a
- sut y gall Parciau Cenedlaethol gyfrannu at flaenoriaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru ac a oes ganddynt yr offer a'r adnoddau cywir i'w galluogi i wneud hyn.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**90.** Cydnabu'r Gweinidog alwadau gan y sector amgylcheddol am dargedau statudol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael y targedau yn iawn ac ychwanegodd:

*It's all very well to say statutory target, but what exactly do we mean by that, and what legislative action therefore follows from that? And then have a road map to get from where we are now to where we want to be.<sup>45</sup>*

**91.** Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai'r Bil Llywodraethu amgylcheddol a gynlluniwyd yn gyfrwng deddfwriaethol addas i gyflwyno targedau statudol.

**92.** Dywedodd y Gweinidog yn flaenrol wrth y pwyllgor y byddai penderfyniad ar dargedau statudol yn cael ei lywio gan ganlyniad COP15, a gaiff ei gynnal ym mis Mai 2022.

## Cynllunio gofodol morol

**93.** Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad fod uchelgeisiau datblygu morol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni mewn ffordd nad yw'n rhwystro ymhellach y broses o gyflawni Statws Amgylcheddol Da. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gydran ofodol na pholisiau rheoli datblygu. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru nad yw'r 'Canllawiau Lleol Sectoraidd' sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol. Ychwanegodd:

*A statutory spatial plan must look cross-sector, at either a regional or national level, to address cumulative impacts on our marine ecosystems from all marine users is required. A marine development plan, such as those that are commonplace on land, would be one way to achieve this.<sup>46</sup>*

**94.** Awgrymodd cynrychiolwyr sector yr amgylchedd y gallai'r pwyllgor ystyried sut y gellir ymgorffori dull gofodol mewn gwaith cynllunio morol.

---

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 20 Hydref 2021

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR77 Cyswllt Amgylchedd Cymru

---

**95.** Mae awgrymiadau eraill ar gyfer craffu ar bolisi morol gan randdeiliaid yn cynnwys:

- cynnydd Llywodraeth Cymru wrth gyflawni ei hymrwymiad i ddatblygu cynllun i adfer morwellt a morfa heli, gan gynnwys cyllid ar gyfer y cynllun, a
- nodi, dynodi a rheoli'r broses Parthau Cadwraeth Forol.

**96.** Roedd cefnogaeth i'r pwyllgor weithio gyda Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i graffu ar Gyd-ddatganiad Pysgodfeydd y DU, o ystyried ei arwyddocâd ar gyfer penderfynu ar bolisiau rheoli pysgodfeydd yn yr hirdymor.

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**97.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod cynllunio a rheoleiddio datblygiadau newydd mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn galluogi twf cynaliadwy yn y sector morol, yn enwedig er mwyn datblygu prosiectau ynni'r môr i gyfrannu at sicrhau sero net.<sup>47</sup>

### **Adolygiad o Cyfoeth Naturiol Cymru**

**98.** Mynegodd rhanddeiliaid ar draws sectorau bryder nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o gapasiti ac adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, heb sôn am waith ehangach i gyflymu ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac i gefnogi adferiad gwyrdd. Cred Ymddiriedolaethau Natur Cymru, o ystyried yr argyfwng hinsawdd a natur sy'n dyfnhau, fod yr amser wedi dod i asesu'n drylwyr allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio.<sup>48</sup>

**99.** Nododd RSPB Cymru fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn toriad yn y gyllideb mewn termau real o 35 y cant rhwng 2013 a 2020. Dywedodd fod angen cynyddu adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru ar frys i gydnabod maint yr her y mae'n rhaid ei chyflawni i atal colli bioamrywiaeth a gwrthdroi hynny.<sup>49</sup> Galwodd RSPB Cymru ar y pwyllgor i ystyried hyn wrth iddo graffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**100.** Dywedodd RWE:

*NRW's statutory consultee function needs to be adequately resourced to ensure they are equipped to play their role in the swift transition to Net Zero".  
Recent experience with NRW's statutory consultee function suggests it is*

---

<sup>47</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR84 Ymddiriedolaethau Natur Cymru

<sup>49</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR80 RSPB Cymru

---

*severely under-resourced to provide the timely and substantive advice required to drive renewable energy projects forward.*<sup>50</sup>

## **Craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

**101.** Awgrymodd sawl rhanddeiliad y byddai'n amserol i'r pwyllgor gynnal gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'), sy'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn ôl Cyswllt Amgylchedd Cymru, mae craffu ar Ddeddf 2016 a dyletswyddau a swyddogaethau statudol ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru yn allweddol i benderfynu a yw'r canlyniadau amgylcheddol a fwriadwyd yn cael eu cyflawni.<sup>51</sup> Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylai'r pwyllgor ystyried hyn wrth osod ei flaenoriaethau.

## **Coedwigaeth**

**102.** Roedd Strategaeth Coetiroedd i Gymru (2018) Llywodraeth Cymru yn cynnwys uchelgais i blannu o leiaf 2,000 hectar o goetir newydd yn flynyddol rhwng 2020 a 2030. Mae ei Chynllun Cyflawni Carbon Isel yn cynnig dyblu'r gyfradd blannu i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, rhwng 2010 a 2020, roedd cyfradd plannu Cymru ar gyfartaledd yn 430 hectar y flwyddyn. Dim ond 80 hectar a blannwyd yn 2019-20 a 290 hectar yn 2020-21.

**103.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i  greu Coedwig Genedlaethol  mewn ymgais i gyflymu'r gyfradd blannu a harneisio manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol coetiroedd. Mae'r safleoedd cyntaf wedi'u nodi.

**104.** Ym mis Mehefin 2021, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd waith ymchwil manwl, dan arweiniad y tasglu Coed a Phren ('y Tasglu') i ystyried y rhwystrau i blannu coed, gyda'r nod o ddatblygu cynigion i'w goresgyn. Cyhoeddodd y Tasglu ei argymhellion y mis canlynol. Bydd Cynllun Gweithredu newydd Coetiroedd i Gymru (i ddisodli Cynllun 2015) yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2021.

**105.** Galwodd rhanddeiliaid ar y pwyllgor i flaenoriaethu gwaith craffu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflymu plannu coed, gan gydnabod bod cyfraddau plannu yn sylweddol is nag uchelgais gyfredol Llywodraeth Cymru. Awgrymodd Coed Cadw y dylai'r pwyllgor graffu ar

---

<sup>50</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR95 RWE

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR77 Cyswllt Amgylchedd Cymru

weithrediad argymhellion y Tasglu. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd cyflawni'r 'newid sylweddol' gofynnol "yn dibynnu i raddau helaeth ar weithredu ar argymhellion".<sup>52</sup>

**106.** Cyfeiriodd academyddion o Brifysgol Bangor at heriau mawr wrth bennu effeithiolrwydd cymharol gwahanol opsiynau plannu coed ar gyfer lliniaru newid hinsawdd a'r cyfaddawd â thargedau eraill fel bioamrywiaeth. Nodwyd nad oedd y rhain wedi cael eu datrys gan y gwaith ymchwil manwl diweddar a bod angen sylw brys pellach arnynt.<sup>53</sup> Rhybuddiodd rhanddeiliaid am ganlyniadau anfwriadol posibl ehangu coetir ar fioamrywiaeth a phwysleisiwyd pwysigrwydd 'y goeden iawn yn y lle iawn'.

**107.** Amlygodd CLILC yr angen i "ddylunio rheoliadau a chynllunio strategol effeithlon a modern ar gyfer plannu coed er mwyn sicrhau bod buddion niferus yn cael eu cyflawni yn hytrach nag un ar draul y llall".<sup>54</sup> Cyfeiriodd Confor hefyd at yr angen i symleiddio system reoleiddio rhy gymhleth, a fyddai'n rhwystr sylweddol yn ei farn ef.<sup>55</sup>

**108.** Mynegodd sawl rhanddeiliad, gan gynnwys undebau ffermio, bryderon fod ffermydd a thir amaethyddol yn cael eu prynu i'w coedwigo gan fuddsoddwyr allanol ym maes coedwigaeth fasnachol, a chan fusnesau y tu allan i Gymru at ddibenion gwrthbwysu carbon. Yn ôl academyddion:

*The significant challenge of how to integrate woodland expansion targets with a socio-economically viable farming sector is a serious issue for Wales that deserves considerable Ministerial attention.*<sup>56</sup>

**109.** Roedd galwadau i'r pwyllgor ystyried effaith bosibl ehangu coetir ar y sector amaeth a'r gymuned wledig ehangach.

**110.** Ymhlith y materion eraill a godwyd gan rhanddeiliaid mae'r canlynol:

- datblygu a chyflawni'r Cynllun Gweithredu newydd Coetir i Gymru;
- sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Pharciau Cenedlaethol i sicrhau bod plannu coed yn cael ei wneud yn yr ardaloedd cywir ac yn ategu strategaethau adfer mawndir a dal a storio carbon a ddatblygwyd gan Barciau Cenedlaethol;

---

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR33 Prifysgol Bangor

<sup>54</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR61 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR95 Confor

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR33 Prifysgol Bangor

---

- defnyddio plannu coed fel ffordd o wrthbwysu carbon;
- pwysigrwydd gofod gwyrdd a gorchudd coed ar gyfer 'dinasoedd byw' a sut y gellir amddiffyn a datblygu'r rhain;
- yr angen i amddiffyn coedwigoedd presennol yng Nghymru a thramor;
- yr angen i ddileu rhwystrau i blannu coed/creu coetir i ffermwyr;
- yr angen i graffu ar 'blannu coed a ariennir gan grant' i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a gwerth am arian.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**111.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod y gwaith ymchwil manwl wedi nodi cyfres o gamau i'w datblygu, gan gynnwys cynllun cyllido newydd ar gyfer creu coetir a strategaeth ddiwydiannol i gydgyssylltu'r gadwyn cyflenwi pren a'r sectorau adeiladu.

**112.** Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi agor ffenestr newydd yn ddiweddar o'r cynllun Creu Coetir Glastir a chynllun peilot Cynllunio Creu Coetir fel cam cyntaf i ddatblygu'r cynnig cyllid newydd. At hynny, mae gweithgor cyllid coetir yn ystyried modelau i ddenu buddsoddiad mewn creu coetir, heb darfu ar gymunedau a phatrymau perchnogaeth tir presennol.<sup>57</sup>

**113.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori yn ddiweddarach eleni ar gyflenwi'r Goedwig Genedlaethol yn yr hirdymor ac yn dechrau gweithio i nodi ardaloedd ar gyfer 30 o goetiroedd newydd a 100 o Goedwigoedd Bach fel rhan o'r rhaglen Goedwig Genedlaethol.

**114.** Nododd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod gwaith ar y strategaeth ddiwydiannol bren wedi dechrau.

## Ansawdd yr aer

**115.** Mynegodd Asthma UK a Sefydliad Ysgyfaint Prydain, Living Streets Cymru a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru siom ynghylch y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chyflwyno'r Bil Aer Glân ym mlwyddyn gyntaf ei rhaglen ddeddfwriaethol. Roedd rhai yn cwestiynu a yw'r Bil yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac awgrymwyd y

---

<sup>57</sup> Papur dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021



dylai'r pwyllgor fynd ar drywydd y mater hwn. Awgrymwyd ymchwiliad i amseriad y Bil a gweithredu mesurau deddfwriaethol, ymhlith materion eraill.

**116.** Roedd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gyfer y Bil Aer Glân (Cymru) i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw ar gael eto.

## Dŵr

**117.** Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r pwyllgor ystyried materion mewn perthynas â rheoli dŵr, gan gynnwys rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth.

**118.** Mynegodd Hafren Dyfrdwy siom fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gohirio'r adolygiad o Strategaeth Dŵr Cymru a dywedodd fod angen amlwg i ddiweddarau llawer o'r camau blaenoriaeth.<sup>58</sup> Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Arqiva a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

**119.** Dywedodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fod y Chweched Senedd yn rhoi cyfle "i weithio gydag Aelodau etholedig a Llywodraeth Cymru i gynyddu pwysigrwydd defnyddwyr dŵr - a dŵr yn fwy cyffredinol - ym mhollisiau a deddfwriaeth Cymru a all helpu camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd".<sup>59</sup> Awgrymodd y dylai'r pwyllgor ystyried materion yn ymwneud â fforddiadwyedd biliau dŵr; dŵr gwastraff a llifogydd; effeithlonrwydd dŵr mewn cynlluniau ôl-osod; a chynllunio a throsglwyddo adnoddau dŵr.

**120.** Cyfeiriodd Dŵr Cymru at yr her yn y tymor hwy ynghylch defnyddio dŵr a galwodd am fwy o gefnogaeth gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â hyn.<sup>60</sup>

**121.** Nododd Dŵr Cymru alw digynsail ar gyflenwad dŵr mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn gwyliau yn y wlad hon o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Dywedodd nad yw'r seilwaith presennol mewn sefyllfa i allu darparu lefel y dŵr.<sup>61</sup> Eglurodd Dŵr Cymru ei fod am neilltuo cyllid i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ardaloedd sy'n cael eu gwasgu cyn haf 2022. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr angen i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Ofwat i nodi anghenion buddsoddi tymor hwy i fynd i'r afael â'r mater.

**122.** Cyfeiriodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru at lygredd annerbyniol parhaus afonydd Cymru ac roedd galw am graffu ar y mater hwn. Mynegwyd pryder ynghylch cyfran fach yr

---

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR79 Hafren Dyfrdwy

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR115 Cyngor Defnyddwyr Dŵr

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 421, 16 Medi 2021

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 429, 16 Medi 2021

erlyniadau mewn perthynas ag achosion llygredd dŵr yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfeiriodd ati fel 'sefyllfa frawychus'. Dywedodd y dylai Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 gael eu cefnogi gan orfodaeth ystyrlon.<sup>62</sup>

**123.** Pwysleisiodd Dŵr Cymru yr angen i randdeiliaid weithio gyda'i gilydd i ddod â mwy o gyrff dŵr i statws ecolegol da ac i fframwaith addas gael ei roi ar waith i gyflawni hyn.<sup>63</sup>

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**124.** Cyfeiriodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden a chryfhau'r gwaith o fonitro ansawdd dŵr. Nodwyd eu bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr a'r sector amaethyddol i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd lle mae angen gwelliannau i gefnogi dyfroedd mewndirol glanach (gan gynnwys afonydd).<sup>64</sup>

**125.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru eisiau gwneud systemau draenio cynaliadwy yn orfodol ar bron pob datblygiad adeilad newydd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad penodol i wella fframwaith deddfwriaethol systemau draenio cynaliadwy i ddarparu buddion amgylcheddol, bioamrywiaeth, lles ac economaidd ychwanegol i'n cymunedau.

**126.** Eglurodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog eu bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff. Bydd y Cynlluniau'n edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â phwysau presennol ac yn y dyfodol ar y system garthffosydd, ac yn helpu i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn buddsoddi'n strategol ac yn dryloyw ar gyfer rhwydwaith dŵr gwastraff a thriniaeth sy'n gydnerth ac yn fforddiadwy yn yr hirdymor a'r byrdymor".<sup>65</sup>

**127.** Pwysleisiodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog bwysigrwydd 'afonydd gwydn' a mynegwyd pryder bod mwyafrif o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru yn methu â chyrraedd targedau ffosfforws. Nodwyd fod Grŵp Goruchwyliaeth Reoli wedi'i sefydlu i ddarparu cyfeiriad strategol a helpu i gyflymu nifer o feysydd.<sup>66</sup>

---

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR84 Ymddiriedolaethau Natur Cymru

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 473, 16 Medi 2021

<sup>64</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>65</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>66</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

---

## Ffermio cynaliadwy

**128.** Mae'r cyfrifoldeb dros amaethyddiaeth y tu allan i bortffolio y Gweinidog Newid Hinsawdd a chylch gwaith y pwyllgor hwn. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid fod y sector amaethyddiaeth yn allweddol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Yn ôl academyddion o Brifysgol Bangor mae pwysigrwydd amaethyddiaeth a'i sylfaen tir wrth alluogi Cymru i gwrdd â'r her sero net yn amlwg.<sup>67</sup>

**129.** Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o randdeiliaid sylwadau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a'r Bil Amaethyddiaeth, a fydd yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Cynllun. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cydweithio â Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i graffu ar y rhain.

**130.** Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod y Bil Amaethyddiaeth yn ddarn hanfodol o ddeddfwriaeth a fydd yn siapio'r dirwedd, yr ecosystem a chymunedau gwledig am flynyddoedd lawer i ddod. Ychwanegodd:

*Ecological resilience, food production and the long-term viability of farming in Wales are interdependent; a healthy environment underpins food production itself. The Agriculture Bill must respond to the triple challenge of delivering high quality sustainable food whilst restoring nature and getting to carbon net zero.*<sup>68</sup>

**131.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth y Senedd ym mlwyddyn gyntaf tymor y Senedd hon. Disgwylir i'r Bil gael ei gyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i graffu arno.

**132.** Yn fwy eang, dywedodd cynrychiolwyr y sector amaeth fod gan y pwyllgor rôl hanfodol wrth ymgysylltu â'r sector i ddeall a hyrwyddo ei uchelgeisiau sero net a hinsawdd.

## Economi gylchol a rheoli gwastraff

**133.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth economi gylchol, *Mwy nag ailgylchu* ('y Strategaeth'). Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch chwe thema graidd ac wyth prif gam gweithredu ac yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu

---

<sup>67</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR33 Prifysgol Bangor

<sup>68</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR77 Cyswllt Amgylchedd Cymru

---

cymryd dros y deng mlynedd nesaf tuag at ei thargedau lleihau gwastraff a lleihau allyriadau carbon ar gyfer 2050.

**134.** Roedd galw ar y pwyllgor i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth a'r targedau lleihau gwastraff.

**135.** Mynegodd cynrychiolwyr y sector amgylcheddol rwystredigaeth ynghylch yr oedi wrth gyflwyno deddfwriaeth lleihau gwastraff, gan gynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio, Cynllun Dychwelyd Ernes, a gwaharddiad ar blastigau untro sy'n sbwriel cyffredin. Galwyd ar y pwyllgor i fynd ar drywydd y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru, a'i dwyn i gyfrif ar amserlenni ar gyfer cyflwyno'r mesurau hyn.

**136.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn cynghori Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth pellach ar leihau gwastraff, a fydd yn "helpu i gyflawni'r nodau yn y strategaeth Mwy Nag Ailgylchu". Fodd bynnag, dywedodd "bydd angen ystyriaeth ofalus i ddeall beth fydd ei angen ar wahanol chwaraewyr ar gyfer y nodau y bwriedir eu gweithredu'n effeithiol yn y ddeddfwriaeth newydd".<sup>69</sup>

**137.** Pwysleisiodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yr angen am ddeddfwriaeth lleihau gwastraff i ddeall anghenion busnesau bach a chanolig.<sup>70</sup> Dywedodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru ei bod yn bwysig bod busnesau yn gallu addasu ac esblygu i ymateb i ofnion y llywodraeth i ddarparu economi gylchol.<sup>71</sup> Galwodd ar Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, fel WRAP Cymru, i barhau i gefnogi busnesau i wneud hyn.

**138.** Croesawodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Merched-Cymru ('NFWI-Cymru') ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wahardd plastigau untro ond dywedodd fod angen canolbwyntio hefyd ar ficroblastigau, yn enwedig ffibrau microblastig. Galwodd am waith ymchwil a datblygu datrysiadau i gyfyngu ar ryddhau microblastigau. Awgrymodd NFWI-Cymru y dylai'r pwyllgor ailedrych ar argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn ei adroddiad ar bolisiau a chynigion sy'n ymwneud â llygredd plastig a gwastraff deunydd pacio (Mehefin 2019).

**139.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod angen i gyrff cyhoeddus "ddod o hyd i atebion arloesol i leihau ac aildddefnyddio gwastraff a hyrwyddo economi gylchol".<sup>72</sup>

---

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru

<sup>70</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR07 Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR44 Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff

<sup>72</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR51 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

---

**140.** Pwysleisiodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yr angen i gynhyrchu llai o wastraff drwy benderfyniadau prynu a dylunio a datblygu cynhyrchion cynaliadwy.

Ychwanegodd:

*a priority action for the Welsh Government is for all departments to adopt the Sustainable Procurement Hierarchy as well as encourage the public sector in particular to adopt the principles of circular procurement, based on the waste hierarchy – Reduce, Reuse, Recycle, and Recover to drive markets and support new business approaches for new products and services.<sup>73</sup>*

**141.** Galwodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru ar gyrff y sector cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd ar ddatblygu manylebau contract a all leihau effaith carbon gwaith, nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu caffael. Dylai hyn fod yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'u proffiliau allyriadau.<sup>74</sup>

**142.** Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod y GIG yn caffael llawer iawn o ddeunyddiau untro ac yn cynhyrchu llawer iawn o wastraff plastig. Dywedodd fod lle i'r GIG ddefnyddio mwy o gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a gwella'r broses o ailgylchu cynhyrchion lle mai defnydd untro yw'r unig ddewis derbynol.<sup>75</sup>

**143.** Galwodd rhanddeiliaid am gefnogaeth i wneud gwahanol sectorau yn fwy cylchol, yn enwedig isadeiledd ac adeiladu, bwyd ac amaethyddiaeth.

**144.** Eglurodd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru fod gwastraff yn broblem endemig wrth godi adeiladau a seilwaith, gyda hyd at hanner y deunyddiau o rai prosiectau yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi.<sup>76</sup> Dywedodd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru:

*The infrastructure sector, and the broader construction sector, lends itself better than most sectors to the introduction of a truly circular economy...there are opportunities to make significant improvements particularly as the Welsh public sector spends in the order of £2bn per annum on construction and infrastructure but rarely measures the carbon impact of this investment. A*

---

<sup>73</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR44 Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru

<sup>74</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR44 Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru

<sup>75</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR41 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

<sup>76</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR59 Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

---

*Committee inquiry into the Circular Economy, with the infrastructure sector as a key part of this, could unlock these opportunities.*<sup>77</sup>

**145.** Dywedodd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff fod y sector adnoddau a gwastraff yn gofyn am ehangu mwy o seilwaith ar gyfer aildefnyddio ac atgyweirio a mwy o fuddsoddiad yn eu gallu i ailgylchu deunydd fel plastig a deunydd pacio. Dywedodd hefyd y bydd angen technolegau data ar gyfer modelau busnes cylchol a gofynion cymhleth cadwyni cyflenwi cylchol.<sup>78</sup>

**146.** Cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei gyfres o adroddiadau ar reoli gwastraff: Atal Gwastraff (Mawrth 2019); Ailgylchu Trefol (Tachwedd 2018); a Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd (Hydref 2018). Dywedodd fod "llawer o'r materion a godwyd gan ein hadroddiadau blaenorol yn parhau'n berthnasol wrth i bolisi/strategaeth ddatblygu", gan gynnwys y flaenoriaeth gymharol a roddir i fesurau atal gwastraff, cynnydd yn erbyn targedau atal gwastraff a chasglu data.<sup>79</sup>

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**147.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff ymhellach yn parhau i fod yn allweddol. Nodwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sut y gall y seilwaith presennol ar gyfer ailgylchu a chasglu gwastraff gynhyrchu cymaint â phosibl o adnoddau o ansawdd uchel y gellir eu defnyddio am gyfnod hirach ac i leihau faint o wastraff y mae busnesau yn ei gynhyrchu.<sup>80</sup>

**148.** Eglurodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gael gwared ar eitemau untro diangen ac yn haneru gwastraff bwyd erbyn 2025; ac yn cyflwyno mesurau i annog defnydd mwy effeithlon o adnoddau, gan gynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Nodwyd y bydd y dyluniadau terfynol ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir cymhwyso diwygiadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr o bosibl i eitemau eraill fel batris, offer trydanol ac electronig, cerbydau modur, tecstilau, ac offer pysgota.

---

<sup>77</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR27 Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil

<sup>78</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR44 Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru

<sup>79</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR100 Archwilio Cymru

<sup>80</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

---

## 7. Cynllunio a seilwaith

### Materion o ran adnoddau a capasiti

**149.** Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at rôl hanfodol y system gynllunio wrth gefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darparu tai fforddiadwy, system drafndiaeth integredig, a datblygiadau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliaid bryder ynghylch y diffyg capasiti, adnoddau a sgiliau arbenigol yn adrannau cynllunio awdurdodau lleol i gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Tynnodd Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai sylw at adroddiadau gan Archwilio Cymru, *Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru* (Mehefin 2019), a *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021* (Medi 2021), sy'n trafod y materion hyn.

**150.** Dywedodd Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru:

*Planning offers an established and effective process to facilitate a sustainable future for Wales. However it needs to be invested in and strengthened to be able to deliver expectations...The RTPI and other stakeholders have long called for the adequate resourcing of the planning system in order for it to achieve its full potential in addressing the complex and challenging issues it faces.<sup>81</sup>*

**151.** Roedd galwadau ar y pwyllgor i ystyried adnoddau, prinder sgiliau, a chefnogaeth ar gyfer darparu capasiti yn adrannau cynllunio awdurdodau lleol.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**152.** Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor:

*One of the reasons that, in the last Senedd, we introduced the corporate joint committee concept was in order to be able to regionalise some of the [planning] services where it's really hard to recruit and people are basically fishing in the same pool, driving prices up, and so on. So, we've been collaborating with the local authorities to make sure that they share expertise across different local authorities.<sup>82</sup>*

---

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR31 Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru

<sup>82</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 20 Hydref 2021

---

**153.** Ychwanegodd y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych i weithio gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â chostau darparu gwasanaethau rheoli datblygiadau yng Nghymru.<sup>83</sup>

## Cynlluniau Datblygu Strategol

**154.** Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn gynlluniau datblygu rhanbarthol sy'n ymdrin â materion trawsffiniol fel tai a thrafnidiaeth. Gwnaed darpariaeth ar eu cyfer am y tro cyntaf yn Neddff Cynllunio (Cymru) 2015.

**155.** Mynegodd rhanddeiliaid rwystredigaeth ynghylch cyflymder y Cynlluniau a oedd yn cael eu cyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol i gyflawni rhai swyddogaethau llywodraeth leol yn rhanbarthol - gan gynnwys cynllunio strategol. Y bwriad yw i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

**156.** Amlygodd rhanddeiliaid yr heriau ymarferol o ddatblygu'r Cynlluniau, sydd, yn eu barn hwy, yn cael eu gwaethygu gan y diffyg adnoddau mewn awdurdodau cynllunio lleol.

**157.** Dywedodd Dr Neil Harris o Brifysgol Caerdydd mai Cynlluniau Datblygu Strategol yw'r rhan goll bwysig o'r jig-so hwnnw yn y system gynllunio yng Nghymru, ond eu bod yn dal i fod bum mlynedd i ffwrdd o fod ar waith.<sup>84</sup> Awgrymodd efallai y byddai'r pwyllgor am oruchwylio'r cynnydd a wneir wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**158.** Eglurodd y Gweinidog y bydd y Cynlluniau'n cael eu darparu drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Dywedodd y byddai'r swyddogaeth o baratoi Cynllun Datblygu Strategol yn trosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ym mis Chwefror 2022 ac i bob Cyd-bwyllgor ar gyfer y rhanbarthau sy'n weddill ym mis Mehefin/Gorffennaf 2022. Amlinellodd y Gweinidog y broses a'r amserlen a ragwelwyd ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Dywedodd y bydd y Cynllun cyntaf ar gael yn 2028, ond ychwanegodd:

*There are no planning barriers limiting early and rapid progress towards SDP adoption, so it's absolutely now down to local authorities and national parks to proceed as fast as possible... there is nothing stopping them coming together as shadow authorities already and setting up the entire structure so that they're ready to go on the day that their powers vest.<sup>85</sup>*

---

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 20 Hydref 2021

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 299, 16 Medi 2021

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 20 Hydref 2021



## Cynllunio gwledig

**159.** Pwysleisiodd CLA Cymru ac NFU Cymru yr angen i'r system gynllunio gefnogi'r economi wledig yn well. Cyfeiriodd CLA Cymru at ei adroddiad, *Rural Powerhouse: a planning system designed for the rural economy in Wales* (Mawrth 2021), sy'n cyfeirio at y system bresennol fel un gyfyngol, drud ac aneffeithlon sy'n niweidio potensial yr economi mewn ardaloedd gwledig.

**160.** Dywedodd NFU Cymru fod angen system gynllunio alluogi ar gefn gwlad Cymru, gyda dull unffurf, cyson a hawdd ei ddeall o gynllunio ar draws pob un o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru a thirweddau dynodedig. Ychwanegodd:

*We need a planning system which allows farmers to meet with statutory and regulatory requirements as well as allow the investment on farm which will allow agriculture to develop and diversify, rather than hold it back.<sup>86</sup>*

**161.** Galwodd CLA Cymru ac NFU Cymru ar y pwyllgor i ystyried y materion hyn.

**162.** Ymhlith y materion eraill a godwyd gan randdeiliaid mae'r canlynol:

- rôl y system gynllunio wrth reoli risg llifogydd;
- sut y gall y system gynllunio gefnogi'r broses o gyflawni amcanion natur a bioamrywiaeth;
- pa bolisiau cynllunio sydd ar waith, neu sy'n cael eu datblygu, i annog twf mewn cludo nwyddau ar reilffyrdd ac i ddiogelu lleoliadau presennol a phosibl;
- sut y gall y system gynllunio gefnogi system ynni sero net;
- ymgysylltiad cymunedol yn y broses gynllunio, gan gynnwys gwerth ymgynghoriadau cyn gwneud cais sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015;
- yr angen am ddull mwy integredig o gynllunio trafndiaeth a defnydd tir;
- yr angen i adolygu hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â seilwaith telathrebu digidol;
- yr angen i ddatblygu'r Bil cydsynio seilwaith a'r Bil cydgrynhoi cynllunio.

---

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR03 NFU Cymru

## Seilwaith datgarboneiddio

**163.** Cyfeiriodd y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil at ei adroddiad, *Decarbonising Our Infrastructure* (Tachwedd 2021), sy'n nodi cynllun gweithredu o sut y cred fod angen i'r sectorau cyhoeddus a phreifat gydweithredu yn llawer ehangach os am ddatgarboneiddio'r seilwaith a pha gamau y mae angen eu cymryd. Awgrymodd y gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth gynorthwyo'r pwyllgor i fesur cynnydd wrth ddatgarboneiddio'r seilwaith.<sup>87</sup>

**164.** Galwodd y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil am i fesurau carbon eistedd ochr yn ochr â mesurau economaidd a chymdeithasol wrth bennu buddsoddiad mewn seilwaith. Dywedodd y dylai'r mesurau hyn ddilyn drwy'r broses gaffael fel bod darparwyr seilwaith y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cael eu gwobrwyo'n briodol am leihau carbon.<sup>88</sup>

## Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

**165.** Awgrymodd Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu Cymru y gallai'r pwyllgor fod eisiau canolbwyntio ar waith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, gan gyfeirio at 'gynnydd araf' y Comisiwn, gwelededd cyfyngedig yng Nghymru, a chwmpas cyfyngedig. Dywedodd y Bwrdd y gallai rhestr seilwaith hirdymor i Gymru fod wedi atal (neu leihau effaith) rhai o'r prosiectau proffil uchel hanesyddol a gafodd eu canslo, gan gynnwys yr M4, morlyn llanw, Wylfa a thrydaneiddio rheilffyrdd.<sup>89</sup>

**166.** Dywedodd y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil fod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn aneffeithiol iawn ar hyn o bryd. Eglurodd fel a ganlyn:

*For us, the commission should have been about that forward look—that medium to long term look: how are things changing globally across Wales, across the UK and then adapting our infrastructure to meet that. It's clearly not doing that for a variety of reasons. We would have also liked to have seen it being a lot more proactive in terms of the delivery—so, delivering on some of those things to lower carbon, for instance. But, again, it doesn't have that mandate. So, I guess my question is at the moment: does the Welsh Government want it? Because it's very difficult to work with that—.*<sup>90</sup>

---

<sup>87</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR27 Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil

<sup>88</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR27 Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil

<sup>89</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR13 Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu Cymru

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 413, 16 Medi 2021

---

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**167.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y pwyllgor ei fod yn awyddus iawn i hogi ffocws y comisiwn seilwaith er mwyn helpu i gwrdd â'r her sero net.<sup>91</sup> Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ychwanegodd:

*What we've said to them is that I would like them to come up with their initial priorities of where they want to focus their work plan, we'll come up with suggestions of where we think it'd be really helpful to us to have their input, and, between the two of us, we'll come to an agreed list of things that they can then go off and work on and come back to us on.<sup>92</sup>*

---

<sup>91</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 20 Hydref 2021

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 20 Hydref 2021

---

## 8. Trafnidiaeth

### Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

**168.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021*. Mae'n canolbwyntio at ddatgarboneiddio, gan gynnwys targed i gynyddu cyfran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol o 32 y cant i 45 y cant erbyn 2040.

**169.** Bydd y Strategaeth yn cael ei darparu drwy Gynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Cenedlaethol pum mlynedd newydd a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd y Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru, corff cyflenwi trafndiaeth Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gael eu datblygu gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

**170.** Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys naw 'cynllun bach' ar gyfer sectorau trafndiaeth unigol, ac mae'n ymrwmo i strategaethau mwy cynhwysfawr ar gyfer y sectorau hedfan, logisteg, cludo nwyddau, porthladdoedd a morwrol. Bydd 'llwybrau dosbarthu' trawsbynciol yn cael eu datblygu (datgarboneiddio, cydraddoldeb, cynllunio teithiau integredig a 'llwybrau gwledig'), a phob un â strwythurau cyflawni a monitro penodol.

**171.** Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Strategaeth ymhlith rhanddeiliaid. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai gweithredu'r Strategaeth yn effeithiol yn dibynnu ar adnoddau digonol.

**172.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i graffu ar y cynnydd tuag at weithredu'r Strategaeth, gan gynnwys datblygu cynlluniau cyflenwi a gweithredu, a chynnydd tuag at y targed newid moddol newydd.

**173.** Amlygodd rhanddeiliaid o ystod eang o sectorau o borthladdoedd/logisteg, i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol bwysigrwydd integreiddio defnydd tir a chynllunio trafndiaeth. Galwodd Living Streets Cymru am nodau uchelgeisiol fel datblygiadau dim ceir.<sup>93</sup>

**174.** Dywedodd y Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth fod sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cynnig cyfle i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafndiaeth ar sail ranbarthol. Awgrymodd efallai y byddai'r pwyllgor am ystyried ymchwiliad i benderfynu sut y

---

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR23 Living Streets Cymru

gallai Cyd-bwyllgorau gyflawni'r integreiddiad rhwng cynllunio a thrafnidiaeth orau er mwyn lleihau'r angen i deithio.<sup>94</sup>

## Llywodraethu trafndiaeth

**175.** Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru yn 2015 fel is-gwmni cyfyngedig drwy warant dan berchnogaeth lawn Llywodraeth Cymru. Ei ddiben cychwynnol oedd caffael a datblygu/gweithredu'r fasnachfrait rheilffyrdd newydd yng Nghymru a'r gwasanaethau Metro yn y cymoedd. Fodd bynnag, mae'r rôl a ragwelwyd ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn tyfu i gynnwys rôl mewn moddau ehangach, ac i weithredu fel ymgynghorydd a chorff cyflenwi ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

**176.** Ar lefel llywodraeth leol, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn ymgymryd â chynllunio trafndiaeth rhanbarthol, er bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddant yn ymgymryd â rolau ehangach. Ochr yn ochr â'r strwythurau hyn, mae ystod o gyrff eraill yn bodoli gyda chyfrifoldebau tebyg, weithiau'n gorgyffwrdd.

**177.** Mae tystiolaeth gan randdeiliaid yn awgrymu nad oes llawer o eglurder ar lywodraethu trafndiaeth yng Nghymru. Dywedodd cynrychiolwyr bysiau fod polisi trafndiaeth Cymru yn dda, ond bod angen i strwythurau cyflenwi, llywodraethu ac adnoddau wella. Roedd Sustrans yn cefnogi gweithio rhanbarthol effeithiol. Mae'r Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth yn ystyried Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, a fydd hefyd â swyddogaeth cynllunio strategol, fel cyfle i integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn rhanbarthol.

## Datgarboneiddio trafndiaeth

**178.** Roedd datgarboneiddio trafndiaeth, yn enwedig drwy newid ymddygiad a newid moddol, yn fater allweddol a godwyd gan randdeiliaid.

**179.** Pwysleisiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr angen i fesur effaith carbon buddsoddiad mewn trafndiaeth a chludo nwyddau i sicrhau bod penderfyniadau'n cefnogi targedau lleihau allyriadau carbon.

**180.** Cafwyd barn gymysg gan randdeiliaid ar adolygiad ffyrdd Llywodraeth Cymru. Galwyd ar y pwyllgor i graffu ar ganlyniad yr adolygiad cyn gynted â phosibl.

**181.** Er bod rhai rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cerbydau trydan wrth drosglwyddo i sefyllfa sero net, pwysleisiodd eraill nad cerbydau trydan yn unig yw'r ateb.

---

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR55 Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth

Roedd barn gref bod angen system trafndiaeth gyhoeddus integredig, hygyrch a fforddiadwy, ynghyd â gwell seilwaith teithio llesol os yw Cymru am leihau allyriadau carbon mewn modd radical. Trafodir rhai o'r materion hyn ymhellach mewn adrannau dilynol.

**182.** Amlygodd rhanddeiliaid heriau a chymhlethdodau penodol sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio trafndiaeth wledig a'r sector porthladdoedd/logisteg.

## Cerbydau trydan

**183.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Strategaeth gwefru cerbydau trydan: Hwyluso'r Pontio i Sero-Net*. ('y Strategaeth Cerbydau Trydan'), sy'n nodi'r uchelgais a ganlyn:

*Erbyn 2025, bydd pawb sy'n defnyddio ceir a faniau trydan yng Nghymru yn hyderus y gallant gael at seilwaith gwefru cerbydau trydan ar yr adeg ac yn y man lle y mae arnynt ei angen.*

**184.** Dilynwyd y Strategaeth gan gynllun gweithredu ym mis Hydref 2021, sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn cael eu monitro a'u hadolygu bob blwyddyn er mwyn helpu i olrhain cynnydd.

**185.** Roedd pryder ymhlith rhanddeiliaid bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU wrth gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan, gyda galwadau am fwy o fuddsoddiad i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**186.** Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, bydd sicrhau bod y broses barhaus o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn ffordd deg a bod hynny'n digwydd cyn bod angen yn her polisi trafndiaeth hanfodol dros chweched tymor y Senedd.<sup>95</sup> Galwyd ar y pwyllgor i graffu ar weithrediad y Strategaeth Cerbydau Trydan, gan gynnwys amserlenni ar gyfer lefelau buddsoddi a chyflenwi.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

---

**187.** Cyfeiriodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog at y terfyn amser sy'n ymestyn i newid y fflyd bysiau i allyriadau isel iawn.<sup>96</sup> At hynny, nodwyd y byddant yn gweithio gyda Network Rail a Llywodraeth y DU i gyflwyno trydaneiddio rheilffyrdd i ddatgarboneiddio'r rheilffordd yng Nghymru.

---

<sup>95</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR14 Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

<sup>96</sup> Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021

---

**188.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ar ddewisiadau amgen i ffordd ryddhad yr M4 bellach yn cael eu paratoi i'w gweithredu gan uned gyflenwi dan gadeiryddiaeth Simon Burns.<sup>97</sup> At hynny, cyfeiriwyd at yr adolygiad ffyrdd, a fydd yn asesu effeithiau carbon posibl prosiectau ffyrdd a gynlluniwyd ac yn gwneud argymhellion ynghylch p'un a ddylai'r rhain barhau, gael eu hailystyried, eu newid neu eu hatal.

## Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol

**189.** Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad yr angen i sicrhau bod gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, a rhwydweithiau a chyfleusterau teithio llesol, yn hygyrch ac yn gynhwysol. Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor ystyried hyn wrth graffu ar ddatblygiad a darpariaeth polisi trafndiaeth.

**190.** Cyfeiriodd Sustrans at y risg o dlodi trafndiaeth, a bwloch sy'n ehangu yn y rhai sy'n gallu cael gafael ar dtrafnidiaeth a'r rhai na allant wneud hynny. Ychwanegodd:

*right now, the way things are heading, if you can afford an electric car you'll be fine. There's a risk that public transport services will reduce or be withdrawn, that fares will go up, and that creates the wider gap and increases social exclusion, and that is a huge thing that we should be worried about.*<sup>98</sup>

**191.** Roedd galwadau am fuddsoddiad ychwanegol mewn trafndiaeth gyhoeddus. Nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod "gan Gymru un o'r gwariant isaf y pen ar dtrafnidiaeth gyhoeddus yn y DU gan arwain at ddiffyg opsiynau trafndiaeth gynaliadwy fforddiadwy a hygyrch". Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru "d[d]yrannu o leiaf 50 y cant o'r gwariant ar dtrafnidiaeth cyfalaf ar wella gwasanaethau bysiau a threnau, gan ddarparu cyllid tymor hir lle bynnag y bo modd".<sup>99</sup> Galwodd Transform Cymru am ailddyrrannu cronfeydd adeiladu ffyrdd i dtrafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

## Teithio llesol

**192.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cyflymu camau gweithredu ar deithio llesol, yn enwedig drwy fuddsoddi mewn seilwaith a rhaglen o newid ymddygiad. Er bod [Llywodraeth](#)

---

<sup>97</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>98</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR68 Sustrans

<sup>99</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR51 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

---

Cymru wedi ymrwymo £75 miliwn i deithio llesol yn 2021-22, galwodd Sustrans am neilltuo o leiaf 10 y cant o gyfanswm y gyllideb drafnidiaeth i deithio llesol.

**193.** Galwyd ar y pwyllgor i ystyried y cynnydd a wnaed wrth weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, ac effeithiolrwydd polisiâu teithio llesol hyd yma. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai hyn gynnwys olrhain argymhellion a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei adroddiad, Gwaith Craffu ar ôl Deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (Mehafin 2018).

**194.** Pwysleisiodd Sustrans yr angen i edrych ar gynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n teithio'n llesol, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig.

**195.** Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cynnal adolygiad o effeithiolrwydd cynlluniau teithio llesol dros dro, a gyflwynwyd yn ystod y pandemig COVID-19, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau gan awdurdodau lleol i wyrddroi'r cynlluniau.

## Bysiau

**196.** Awgrymodd Bus Users UK a Chyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru y dylai'r pwyllgor flaenoriaethu gwaith ar adferiad ar ôl Covid ar gyfer y sector trafndiaeth gyhoeddus. Dywedodd Bus Users UK:

*There is a very real danger that, post-Covid, we will see a car-led recovery. UK Government demonised public transport in the early stages of the health crisis and actively encouraged people to travel by car. There needs to be greater promotion of the benefit of sustainable transport...backed by a Welsh Government campaign encouraging people back onto public transport.<sup>100</sup>*

**197.** Nododd Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru y bydd Cynllun Argyfwng Bysiau 2 yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2022. Dywedodd os nad yw lefelau teithwyr yn gwella erbyn hynny ei bod yn debygol y bydd pwysau sylweddol ar rwydweithiau bysiau a allai arwain at brisiau uwch neu lefelau gwasanaeth is heb gefnogaeth y llywodraeth. Dywedodd Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru y dylai'r pwyllgor ystyried trosglwyddo trefniadau cyfredol o ran cefnogaeth COVID-19 i wasanaethau bysiau.<sup>101</sup>

---

<sup>100</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR40 Bus Users UK

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR43 Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru



**198.** Cyfeiriodd rhanddeiliaid at ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor wneud gwaith cynnar er mwyn helpu i lunio'r rhaglen ddiwygio.

## Trenau

**199.** Dywedodd Great Western Railway yr hoffai weld trafodaeth ehangach am reilffyrdd i gynnwys gwasanaethau rheilffordd y prif linellau, a sut maent yn ffurfio rhan o'r ateb ar gyfer teithiau lleol, ac ar gyfer teithiau busnes ac ymwelwyr i mewn ac allan o Gymru. Awgrymodd y gallai'r gwaith hwn ymgorffori'r cyfleoedd a nodwyd yn Adroddiad Burns, hynny yw sut mae gweithredwyr trenau yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo dychweliad i'r rheilffordd; a sut maent yn annog mwy o newid moddol.<sup>102</sup>

**200.** Awgrymodd y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil y dylai'r pwyllgor ganolbwyntio ar y cynnydd a wnaed wrth symud ymlaen ag argymhellion Comisiwn Burns. Nododd fod llawer o'r argymhellion, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys swyddogaethau rhannol neu heb eu datganoli, fel gwaith ar y brif reilffordd, yn gofyn am gydweithrediad sylweddol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.<sup>103</sup>

**201.** Dywedodd Transport Focus fod Great British Railways: William-Shapps plan for rail (Mai 2020) Llywodraeth y DU yn rhoi cyfle i gynnwys mwy o weithio cydgysylltiedig ac ymdeimlad cryfach o atebolrwydd cyffredinol. Galwodd am graffu a chysoni gweithredu ar ddwy ochr y ffin.<sup>104</sup> Fodd bynnag, awgrymodd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru wrthdaro posibl â blaenoriaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru.

## Annog pobl i beidio â defnyddio ceir

**202.** Roedd galwadau ar y pwyllgor i ystyried mesurau posibl i annog pobl i beidio â defnyddio ceir i sicrhau newid moddol. Dywedodd Sustrans a Transform Cymru y dylid ymgymryd â'r gwaith hwn ar frys er mwyn osgoi adferiad dan arweiniad car o'r pandemig COVID-19.

**203.** Nododd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru:

---

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR78 Great Western Railway

<sup>103</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR27 Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil

<sup>104</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR92 Transport Focus

---

*There are already significant investments planned for improving public transport but discussions about steps that could be taken to encourage a reduction in car use are more limited.*<sup>105</sup>

**204.** Dywedodd Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru y gallai mesurau gael eu cynllunio i gynhyrchu incwm gan leddfu ymhellach yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus wrth wella trafndiaeth gyhoeddus.<sup>106</sup>

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**205.** Cydnabu'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog y gallai fod angen codi'r targed newid moddol newydd ymhellach os yw gwyddoniaeth o ran newid hinsawdd yn mynnu hynny, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i'w adolygu. Nodwyd, er mwyn cyrraedd y targed bod yn rhaid i gerdded a beicio ddod yn ffordd arferol o wneud teithiau byrrach. Nodwyd bod cyllid teithio llesol wedi cael ei gynyddu a chaiff ei gynyddu ymhellach wrth i'r broses o adeiladu seilwaith teithio llesol gyflymu i roi cynlluniau rhwydwaith yr awdurdodau lleol ar waith.<sup>107</sup> Yn ôl y Dirprwy Weinidog, mae 10.5 y cant o gyllideb trafndiaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu i deithio llesol yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**206.** Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog fod cam cyntaf y cynlluniau peilot terfyn cyflymder 20mya wedi gosod esiampl ar gyfer ei gyflwyno i awdurdodau lleol ledled Cymru yn y dyfodol. Mewn ardaloedd mwy gwledig, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at 'Beicio Diogel o'r Pentref i'r Dref'.<sup>108</sup>

**207.** Pwysleisiodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yr angen i deithiau ceir gael eu disodli gan drafndiaeth gyhoeddus, a fyddai'n gofyn am drawsnewid system trafndiaeth gyhoeddus Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chynllun cyflenwi bysiau a'i Phapur Gwyn ddiwedd 2021. Bydd y rhain yn nodi'r cynlluniau i drawsnewid rhwydwaith bysiau Cymru, gan ei wneud yn fwy dibynadwy, hygyrch a fforddiadwy.<sup>109</sup>

### **Prinder gyrwyr**

**208.** Cyfeiriodd rhanddeiliaid at yr heriau recriwtio yn y sector logisteg a thrafndiaeth, a ddangosir gan brinder gyrwyr bysiau, coetsys a cherbydau nwyddau trwm. Galwodd y Sefydliad

---

<sup>105</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR55 Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafndiaeth

<sup>106</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR43 Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru

<sup>107</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>108</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>109</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

---

Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth am ymchwiliad i archwilio sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i ddenu talent a chynyddu amrywiaeth yn y tymor hwy. Mynegwyd barn debyg gan Bus Users UK.

## Cludo nwyddau

**209.** Awgrymodd y Rail Freight Group a Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o flaenoriaeth i gludo nwyddau wrth lunio polisiau. Dywedodd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru ei fod wedi bod â phryderon ers peth amser am 'ddallineb o ran cludo nwyddau', gyda chludiant yn aml yn cael ei ystyried yn ôl-ystyriaeth.<sup>110</sup> Roedd galwadau ar y pwyllgor i graffu ar ddatblygiad a darpariaeth strategaethau cludo nwyddau yn y dyfodol.

**210.** Er bod y Rail Freight Group yn cydnabod pwysigrwydd datgarboneiddio trafndiaeth, gan gynnwys y sector cludo nwyddau ar reilffyrdd, nododd:

*the immediate priority elsewhere in the UK is for freight modal shift from road to rail which is well proven to reduce carbon emissions by up to 76%, and also substantially reduce emissions of particulates.<sup>111</sup>*

**211.** Roedd galwadau ar y pwyllgor i ystyried sut mae newid moddol yn cael ei gefnogi, a rôl y system gynllunio wrth annog twf mewn cludo nwyddau ar reilffyrdd. Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid gwneud y gwaith hwn ar y cyd â Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

## Porthladdoedd

**212.** Amlygodd Awdurdod Porthladdoedd Prydain adferiad COVID-19 a mynd i'r afael â'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â Brexit fel blaenoriaethau allweddol.

**213.** Dywedodd Porthladd Aberdaugleddau y bydd porthladdoedd Cymru yn parhau i fod yn hanfodol i economi Cymru, ond mae angen strategaeth economaidd drawsbynciol glir.<sup>112</sup> Awgrymodd y Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth y gallai'r pwyllgor wneud gwaith ar ddatblygu porthladdoedd Cymru, gan gynnwys y potensial ar gyfer porthladdoedd rhydd, darparu cyfleusterau trosglwyddo moddol newydd, a chyfleusterau Parcio Loriau.<sup>113</sup>

---

<sup>110</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR55 Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR11 Rail Freight Group

<sup>112</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR54 Porthladd Aberdaugleddau

<sup>113</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR55 Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth

---

## 9. Digidol

### Seilwaith cysylltedd digidol

**214.** Nododd rhanddeiliaid gysylltedd digidol fel blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r pwyllgor, gan gydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg ddigidol, yn enwedig yn sgil y pandemig COVID-19.

**215.** Galwodd Gofal a Thrwsio Cymru am hawl i gysylltedd digidol ledled Cymru.<sup>114</sup> Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched-Cymru fod band eang a signal ffôn symudol yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol yng Nghymru, a chred yn gryf bod yn rhaid eu cydnabod felly.<sup>115</sup>

**216.** Amlygodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Grŵp BT, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynrychiolwyr undebau ffermio, bwysigrwydd mynd i'r afael â rhwystrau i gysylltedd digidol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

**217.** Dywedodd NFU Cymru fod cysylltedd gwledig a signal ffonau symudol gwael yn ffynonellau rhwystredigaeth. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru o'r farn y dylai'r pwyllgor wthio Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn seilwaith gwledig i alluogi busnesau fferm i fanteisio ar gyfleoedd cysylltedd digidol a pheidio â chael eu gadael ar ôl, gan gynyddu ymhellach y rhaniad digidol rhwng ardaloedd trefol a gwledig.<sup>116</sup>

**218.** Dywedodd Grŵp BT:

*We believe an important aspect of meeting Wales' carbon targets and building a sustainable Wales is future-proofing Wales' digital connectivity through full fibre roll-out and mobile coverage, which underpins the development of digital skills. We hope the work of the Committee will recognise the long-term value of fully connecting Wales to achieving net zero and take steps to support this process, continuing the work from previous terms.<sup>117</sup>*

---

<sup>114</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR42 Gofal a Thrwsio Cymru

<sup>115</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR37, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched-Cymru

<sup>116</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR03 NFU Cymru

<sup>117</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR16 Grŵp BT

**219.** Nododd Archwilio Cymru ganfyddiadau ac argymhellion y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn ei adroddiad, Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru (Rhagfyr 2020), gan gynnwys cymeradwyo rhinweddau craffu archwilio pellach yn y maes hwn. Eglurodd Archwilio Cymru ei bod yn bwriadu ymgymryd â gwaith pellach ar seilwaith band eang, yn dilyn ymlaen o'i adroddiad, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf (Mai 2015). Nid yw wedi penderfynu eto ar gwmpas y gwaith hwn.

**220.** Croesawodd y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil y cynnydd yn y buddsoddiad mewn seilwaith digidol. Fodd bynnag, awgrymodd y dylai'r pwyllgor graffu ar fuddion y buddsoddiad hwnnw i fusnesau a chymunedau lleol.

**221.** Roedd galwadau ar y pwyllgor i graffu ar y modd y cyflawnwyd Strategaeth ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru (Mawrth 2021).

## Cynhwysiant digidol a sgiliau digidol

**222.** Mae cynhwysiant digidol a sgiliau digidol yn torri ar draws cylch gwaith sawl pwyllgor yn y Senedd. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, tra bod y Gweinidog Newid Hinsawdd yn gyfrifol am bolisi a strategaeth ddigidol traws-lywodraeth.

**223.** Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai'r pwyllgor ystyried beth arall y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag allgáu digidol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn a phobl ag anawsterau dysgu, a chefnogi datblygiad sgiliau digidol.

**224.** Eglurodd Diverse Cymru fod gwaharddiad digidol yn rhwystr sylweddol i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau.<sup>118</sup> Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru ac Age Cymru fod y pandemig COVID-19 yn tynnu sylw at realiti allgáu digidol i lawer o bobl sydd ag anabledd dysgu ac i bobl hŷn.

**225.** Galwodd Age Cymru ar y pwyllgor i ganolbwyntio ar 'dlodi data', a nododd:

*it is important to recognise the significant cost of getting and staying online for some older people and to ensure that nobody is digitally excluded on cost grounds.*<sup>119</sup>

**226.** Cyfeiriodd Grŵp BT at waith ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a ganfu mai Cymru sydd â'r gyfran isaf o bobl â phob un o'r pump sgil ddigidol sylfaenol, a'r gyfran uchaf

---

<sup>118</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR21 Diverse Cymru

<sup>119</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR70 Age Cymru

o'r rhai heb ddim sgiliau. Awgrymodd Grŵp BT na fyddai adferiad gwyrdd yn bosibl heb fynd i'r afael â'r rhaniad digidol ac uwchsgilio'r genedl.<sup>120</sup>

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog**

---

**227.** Eglurodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, er bod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gysylltedd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gamu i mewn i ddarparu cysylltedd drwy ei Chronfa Band Eang Lleol a'i chynllun ABC.<sup>121</sup>

**228.** Eglurwyd fod Llywodraeth Cymru, er 2006, wedi goruchwyllo contract ar draws y sector cyhoeddus i ddarparu cysylltedd sector cyhoeddus i 120 o sefydliadau sy'n cwmpasu tua 5,000 o leoliadau fel ysgolion, colegau, prifysgolion, gwasanaethau tân, yr heddlu, ysbytai, meddygfeydd, adeiladau awdurdodau lleol.

**229.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn brif bartner y consortiwm mewn prosiect arloesi technoleg symudol 'Cymoedd Technoleg 5G' sy'n canolbwyntio ar gysylltedd gwledig.<sup>122</sup> Ystyrir bod y rhaglen yn 'braenaru' i lywio modelau lleoli rhwydwaith symudol posibl yn y dyfodol ac yn gyfle posibl i uwchraddio gwasanaethau o'r fath.

---

<sup>120</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PR16 Grŵp BT

<sup>121</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

<sup>122</sup> [Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, cyfarfod 20 Hydref 2021](#)

---